

## **Cyngor Adnewyddu'r Economi Trafodaeth ar y Rhaglen Lywodraethu**

### Cyflwyniad

Ar 20 Medi cyhoeddwyd Symud Cymru Ymlaen, gan osod y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Fel Llywodraeth, rydym am sicrhau economi gryfach a thecach, gwella a diwygio gwasanaethau cyhoeddus, ac adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

### Symud Cymru Ymlaen

Mae Symud Cymru Ymlaen yn gosod blaenoriaethau lefel uchel y Llywodraeth mewn cynllun pum mlynedd. Nod y prif flaenoriaethau hyn yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bawb, ar bob cam o'u bywydau, a'u cefnogi pan fo angen hynny fwyaf.

Rydym wedi nodi lle gall gwaith Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf, a sut y bydd ein prif ymrwymadau yn cyfrannu at ein nodau cyffredin. Mae'r meysydd hynny yn ymwneud â sicrhau bod Cymru'n:

- Ffyniannus a Diogel
- Iach ac egnïol
- Uchelgeisiol ac yn Dysgu
- Unedig a Chysylltiedig

Ni fydd ein hagenda ar gyfer y Llywodraeth hon yn cael ei chadarnhau'n derfynol wrth gyhoeddi Symud Cymru Ymlaen. Yn hytrach, mae cyhoeddi'r rhaglen yn dechrau cyfnod o ystyried yn fanylach sut i gydweithio a newid gwasanaethau i gyflawni ein blaenoriaethau. Bydd hyn yn gofyn am ddechrau ffres i gyflawni drwy ffyrdd newydd o weithio. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud yn glir y bydd y Llywodraeth hon yn gweithio mewn ffordd wahanol i eraill.

Mae Symud Cymru Ymlaen yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid â buddiant, ac i feddwl am ddulliau gweithredu ataliol a thymor hir fel rhan annatod o'n gwaith wrth lunio polisiau. Rydym am weithio mewn ffordd greadigol gyda'n holl bartneriaid ar draws Cymru i ddod o hyd i atebion i'r heriau yr ydym oll yn cydnabod sy'n ein hwynebu, ac i'n helpu i gael yr effaith fwyaf bosib ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd.

Bydd y pedwar maes sydd wedi'u gosod yn Symud Cymru Ymlaen yn sylfaen ar gyfer datblygu pedair strategaeth drawsbynciol, gysylltiedig a fydd yn caniatáu i ni feddwl sut i ddefnyddio'r dulliau gweithredu sydd ar gael i ni er mwyn cael yr effaith fwyaf.

### Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru

Mae pum mlynedd eithriadol bwysig o'n blaen. Rydym yn gwybod bod rhaid i ymddygiad cyfrifol ac ymarferoldeb cyllidol dywys ein gwaith. Mae cyni Llywodraeth y DU yn parhau, ac mae pob dadansoddiad gwrthrychol o effaith bosib Brexit yn dweud y dylem fod yn barod i weld yr economi'n crebachu.

Fodd bynnag, rydym yn benderfynol o beidio â gadael i'r ansicrwydd hwn bennu'r telerau Llywodraeth hon. Mae 'Symud Cymru Ymlaen' yn ddatganiad o fwriad, ac yn cynnwys ein dyhead i weld gwlad unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Mae'n Cyllideb Ddrafft, a fydd yn cael ei chyhoeddi ar 18 Hydref, yn pennu adnoddau yn unol â'n blaenoriaethau. Bydd ein pedair strategaeth yn ystyried sut i gael yr effaith fwyaf bosib yn ein holl waith.

Ymysg ein pedair strategaeth, bydd y strategaeth Ffyniannus a Diogel yn cynnwys twf cynaliadwy a sicrhau swyddi gwell yn nes adref, darparu cartrefi diogel i bawb, a lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael swyddi a'u cadw.

Yn ystod yr haf eleni, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith wahoddiad agored am sylwadau ynghylch blaenoriaethau economaidd er mwyn sicrhau "Cymru fwy teg, mwy ffyniannus a mwy cadarn" i'n helpu i lywio ein gwaith i sicrhau twf a swyddi gwell. Gan gofio hyn, rydym yn awyddus i drafod gyda chi ynghylch yr holl egwyddorion datblygu economaidd a fydd yn dylanwadu ar bob un o'r pedair strategaeth, a hefyd i feddwl o'r newydd am ein hymyraethau er mwyn sicrhau eu bod yn gysylltiedig, yn drawsbynciol ac yn darparu canlyniadau cadarnhaol ym mhob agwedd ar raglen y Llywodraeth.

Mae heddiw yn gyfle gwerthfawr i ystyried gyda'n gilydd sut y gallwn gydweithio i gyflawni ein holl ddyheadau a'r ymrwymadau sydd wedi'u cynnwys o fewn ein Rhaglen Lywodraethu.

Pwyntiau i'w trafod:

- Pa heriau mae'r aelodau'n eu rhagweld wrth gyflawni Symud Cymru Ymlaen?
- Sut fedrwn ni gydweithio i gyflawni cymaint â phosib o'r dyheadau yn Symud Cymru Ymlaen?"